**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 19 Gorffennaf 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L James (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | N J Davies | M Durke |
| M Jones | S M Jones | W G Lewis |
| G J Tanner | L V Walton | L J Tyler-Lloyd |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): E T Kirchner

---

## 6 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd Wendy Lewis yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022.

## 7 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 8 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

## 9 Rhaglen Sefydlu Aelodau 2022.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i geisio mewnbwn gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ynghylch y gofynion Hyfforddiant Sefydlu ar gyfer cynghorwyr yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2022.

Cyfeiriodd at y dogfennau cysylltiedig a amlinellir fel a ganlyn:
Atodiad 1 – Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Cynghorwyr ar gyfer 2017-2018;
Atodiad 2 - "Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021" CLILC;

Atodiad 3 - Cwricwlwm Sefydlu yng Nghymru ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2022 (Drafft) CLlLC.

Roedd sylwadau gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Man cychwyn ardderchog y gellid adeiladu arno;
- Mae cyfryngau cymdeithasol a TG, gan gynnwys rheolau a moesgarwch yn bwysicach nag erioed, yn enwedig os byddwn yn parhau â chyfarfodydd ar-lein;
- Gweithio o amgylch ymgeiswyr posib mewn grwpiau heb eu cyflwyno'n ddigonol fel yr amlinellir yn Amrywiaeth mewn Democratiaeth (adroddiad i'r cyngor ar 29 Gorffennaf);
- Dylid cyhoeddi gwybodaeth i ymgeiswyr ar ein gwefan i gynnwys yr amserlen hyfforddiant sefydlu fel bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r gofyniad hwn;
- Byddai gan gynghorwyr gryfderau a gwendidau gwahanol e.e. Byddai gwybodaeth am y Gyllideb/wybodaeth ariannol yn amrywio;
- Cyfyngu ar faint o hyfforddiant cychwynnol a ddarperir wrth ethol Cynghorwyr am y tro cyntaf gan y gallai fod yn llethol;
- Byddai taflen ffeithiau sy'n cynnwys manylion cyswllt swyddogion yn ddefnyddiol;
- Roedd cynllun mentora cynghorwyr neu swyddogion yn ddefnyddiol iawn;
- Awgrymu cynnwys ymwybyddiaeth o'r broses ddemocrataidd yn ein cwricwlwm ysgolion newydd;
- Gwybodaeth am ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd;
- Lolfa'r Aelodau – darparodd ryngweithio cymdeithasol â chynghorwyr eraill sydd newydd eu hethol a chynghorwyr sy'n dychwelyd.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad;
2) Sefydlu Gweithgor i ystyried unrhyw ofynion ychwanegol ar gyfer Rhaglen Sefydlu Etholiad Llywodraeth Leol 2022;
3) Dosbarthu Atodiad C, y cyfeirir ato yn Atodiad 1, drwy e-bost i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

## 10 Holiadur Cynghorwyr.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried holiadur cynghorwyr i'w anfon at bob cynghorydd yn gofyn am adborth ar bresenoldeb o bell mewn cyfarfodydd pwyllgor yn ystod y pandemig.

Ar ôl ei gwblhau, byddai'r holiadur yn cael ei ddosbarthu gan y Cydlynydd Ymgynghori, a fyddai'n coladu'r ymatebion er mwyn cyflwyno adroddiad pellach i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn datblygu polisi cyfarfod hybrid.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Y dylid anfon sylwadau neu ddiwygiadau drwy e-bost at y Swyddog Monitro erbyn dydd Llun, 26 Gorffennaf 2021;
2) Cyflwynir adroddiad pellach yn amlinellu canlyniadau'r holiadur i gyfarfod nesaf Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd er mwyn datblygu polisi cyfarfod hybrid.

**11 Cynllun Gwaith 2021-2022.**

Amlinellodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022 ac awgrymodd, oherwydd maint y gwaith a gynhwysir yn y Cynllun Gwaith, y dylai Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd drefnu cyfarfodydd ychwanegol o nawr tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Awgrymodd naill ai gyfarfodydd misol byrrach neu gyfarfodydd bob deufis.

**Penderfynwyd ar y canlynol:**

1) Dylid nodi'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022 drwy ychwanegu'r eitemau canlynol:
    - Canlyniadau Holiadur y Cynghorwyr;
    - "Polisi Cyfarfod Hybrid";
2) Trefnir cyfarfodydd ychwanegol rhwng mis Medi 2021 a mis Mai 2022.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.54 pm

**Cadeirydd**